# GLYNDWR PUGH
## CLWB ATHLETAU CWM RHONDDA

Mae Glyn wedi bod yn aelod o Glwb Athletau Cwm Rhondda am dros 50 mlynedd. Ymunodd â'r clwb pan oedd yn fachgen gan gystadlu mewn cystadlaethau taflu. Mae'n parhau i gystadlu hyd heddiw yn athletwr o fri. Dros y blynyddoedd, mae wedi rhoi llawer iawn o amser yn ôl i'r clwb. Mae Glyn yn hyfforddi tri diwrnod yr wythnos ac yn mynychu pob cystadleuaeth er mwyn cefnogi athletwyr y clwb. Mae wedi bod yn llwyddiannus iawn yn hyfforddwr ac mae wedi parhau â record y clwb o fagu Pencampwr Athletau Cymru neu Bencampwr Rhyngwladol bob blwyddyn ers i'r clwb gael ei sefydlu. Mewn cystadlaethau, bydd yn aml iawn yn cael ei weld ar y cau yn dyfarnu, yn swyddog athletau swyddogol Gradd 2.

Mae Glyn hefyd yn gadeirydd y clwb ac mae'n neilltuo llawer iawn o amser bob wythnos er mwyn cynnal y clwb gyda'i wraig Pauline. Mae'n glod mawr i'r clwb!




Chwaraeon RhCT
Sport RCT

# GWIRFODDOLWR Y MIS

## EBRILL 2023